

Rhaglen i Raddedigion

Darparu Cyfleoedd
Dysgu a Hyfforddi

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Dulliau o weithio	2
Beth rydym yn ei gynnig i'n graddedigion?	3
Cymhwyso	4
Beth ydym ni'n ei ddisgwyl gennych chi?	5
Beth sydd angen i chi ei wneud nesaf?	6
Pam yr ydym yn defnyddio Canolfan Asesu?	7
Beth yw trefn y Ganolfan Asesu?	7
Beth a fesurir gan yr asesiadau?	8
Sut y gallwch chi baratoi?	8
Barn ein graddedigion blaenorol?	9
Gwybodaeth Gyswllt	9

Cyflwyniad

Heb os nac oni bai, Cyngor Sir Caerfyrddin yw un o'r awdurdodau lleol mwyaf uchelgeisiol yng Nghymru, ac mae ganddo hanes cryf o gyflawni cynlluniau sydd wedi ennill gwobrau a denu mewnfuddsoddiad i helpu'r sir i dyfu.

Rydym yn chwarae rhan allweddol yn rhanbarth De Cymru a De-orllewin Cymru, fel awdurdod cynnal ar gyfer nifer o gynlluniau cydweithredol rhanbarthol, gan gynnwys Bargen Ddinesig Bae Abertawe sy'n werth £1.3 biliwn.

Mae ein rhaglen buddsoddi cyfalaf wedi'i chydabod fel yr un fwyaf uchelgeisiol yng Nghymru, gan gynnwys a chreu cannoedd o swyddi a busnesau lleol.

Rydym yn canolbwyntio ar adfywio a thrawsnewid, drwy fuddsoddi mewn ysgolion drwy ein rhaglen moderneiddio addysg, gwella a thyfu ein stoc tai a'n tai fforddiadwy drwy raglen adeiladu a chynnal a chadw ddeinamig sy'n werth miliynau o bunnoedd a chreu cyfleoedd ar gyfer buddsoddi a thwf drwy ein cynlluniau rhanbarthol strategol.



Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn pennu ein ffordd o weithio ac mae'r 7 nod yn treiddio trwy bopeth a wnawn.

Cyflwyniad gan y Cyng. Mair Stephens

Fel Dirprwy Arweinydd y Cyngor a'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Reoli Pobl rwy'n llawn cyffro ein bod yn gallu cynnig y cyfleoedd hyn i raddedigion.

Fel Cyngor rydym yn falch o'n gweithlu a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i'n dinasyddion ac yn chwilio am bobl sy'n dangos ymrwymiad ac egni yn ogystal â bod yn hyblyg ac yn greadigol.

Rydym bob amser yn awyddus i gynnig cyfleoedd datblygu ac mae ein lleoliadau i raddedigion yn un o'n prosiectau blaengar. Rydym wedi cael llwyddiant rhagorol dros y blynyddoedd ac mae gweld ein graddedigion yn tyfu ac yn datblygu ac yn ymgymryd â rolau arwain bob amser yn rhoi boddhad inni.

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn ymuno â sefydliad sy'n newid drwy'r amser, ond drwy gydol hynny mae ein gwerthoedd craidd yn parhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn, yn enwedig ein gwerth cyffredinol o weithio fel 'Un Tîm'.

Rwyf i, a gweddill y Bwrdd Gweithredol, yn cymryd diddordeb brwd yng nghynnydd ein graddedigion ac rwy'n edrych ymlaen at gwrdd â'r ymgeiswyr llwyddiannus a gweithio gyda nhw.

Cyflwyniad gan Y Prif Weithredwr

Mae'n bleser gennyf gyflwyno ichi'r amrywiaeth o gyfleoedd i hyfforddeion graddedig sydd ar gael yng Nghyngor Sir Caerfyrddin. Dechreuais i fy ngyrfa fel Hyfforddai Graddedig yn y diwydiant adwerthu, ac rwy'n cydnabod i hwn fod yn gyfle gwych imi ddysgu mwy am y diwydiant ac ennill y sgiliau a'r wybodaeth yr wyf wedi'u defnyddio drwy gydol fy ngyrfa i gamu ymlaen i'r rôl sydd gennyf heddiw – roedd yn sicr wedi gweithio i mi!

Rwy'n hynod falch o gael arwain yr awdurdod blaengar hwn, ac rwy'n cydnabod bod ein graddedigion, sy'n gweithio gyda'n staff presennol, yn chwarae rôl allweddol o ran llunio ein dyfodol. Yr ydym, yn ddiamheuaeth, yn sefydliad blaengar ac rydym yn chwilio am bobl sy'n rhannu'r uchelgais hwnnw.

Rydym bob amser yn ceisio gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio, a'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu. Credaf yn bendant, os cewch chi'r cyfle iawn, gallwch fod yn weithwyr proffesiynol y dyfodol a chwarae rôl allweddol wrth ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel a chyfrannu i weledigaeth tymor hir Sir Gaerfyrddin.

Mae pob un o'r cyfleoedd sydd ar gael yn gysylltiedig â chymhwyster proffesiynol, a fydd yn rhoi cyfle ichi adeiladu ar eich llwyddiant academaidd a dechrau ar astudiaeth bellach fel rhan o'r swydd dan hyfforddiant. Yn ogystal, byddwch yn cael eich mentora gan uwch-reolwyr ynghyd â chael datblygiad wedi'i dargedu a fydd yn eich galluogi i ddysgu am y sefydliad a'ch datblygu ar gyfer gyrfa mewn Gwasanaeth Cyhoeddus. Pob lwc â'ch cais ac rwy'n edrych ymlaen at ddysgu am gynnydd ein hymgeiswyr llwyddiannus!

Wendy Walters - Y Prif Weithredwr

Dulliau o weithio

Taith Prydain, 2018 - Caerfyrddin



Mae'r Cyngor yn un o'r cyflogwyr mwyaf, yn ogystal â bod yn un o'r cyflogwyr mwyaf amrywiol yn Ne-orllewin Cymru, ac mae oddeutu 8,000 o weithwyr diwyd a thalentog yn ganolog i bopeth a wnawn.

Rydym yn falch o fod yn gyflogwr gofalgwr, gan fuddsoddi yn ein staff a sicrhau bod y sgiliau a'r cyfleoedd datblygu cywir ar gael i roi gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid, ac mae'r safonau a gyflawnwyd gennym yn dystiolaeth o hyn.

Rydym wedi ymrwmo i helpu ein gweithwyr i ddysgu a meithrin eu sgiliau, gan gynnig amrywiaeth o drefniadau gweithio a buddiannau er mwyn helpu pobl i gydbwysu bywyd a gwaith.

Rydym yn cydnabod ac yn cymell blaengarwch, gwaith rhagorol a safonau o'r radd flaenaf, ac rydym wedi ymrwmo i gyfathrebu â'n staff ac i wrando arnynt ynghyd â hybu cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 74 o Gynghorwyr Etholedig. Model Arweinydd a Bwrdd Gweithredol sydd ganddo ac mae'r Weinyddiaeth bresennol yn gynghrair rhwng Plaid Cymru a'r Grŵp Annibynnol.



Beth rydym yn ei gynnig i'n gradddedigion?



Rhaglen i Radddedigion Creadigol

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd cyffrous a gellir eu gweld yma: sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/swyddi-a-gyrfaoedd/

Bydd pob un o'r rolau hyn yn rhan o'n Rhaglen 'Barod am Waith' a bydd y cymorth canlynol yn cael ei gynnig.

- Telerau ac Amodau Cyflogaeth deniadol.
- Cyfuniad o ddysgu trwy gael profiad ymarferol
- Cyfle i astudio a chael achrediad proffesiynol
- Cyfle i ddysgu a datblygu drwy gysiau, seminarau a gweithdai mewnol ac allanol

Ar ôl i chi ddechrau ar eich swydd, gallwch ddisgwyl cael eich cynnwys ym mhob agwedd ar waith eich tîm - er enghraifft aseiniadau yn ymwneud â phrosiect, datrys problemau, gwaith dadansoddi ac ymchwil ynghyd â chymryd rhan mewn sesiynau briffio a chyfarfodydd mewnol ac allanol. Drwy gydol y cyfnod hwn byddwch yn cael llawer o gefnogaeth gan eich rheolwr llinell a fydd yn eich helpu chi o ran eich datblygiad proffesiynol a bydd y cymorth y byddwch yn derbyn gan gydweithwyr agos hefyd yn hwyluso eich cynnydd.

Cymhwyso

Fel rhan o'ch datblygiad proffesiynol parhaus, byddwn yn eich cynorthwyo i gyflawni **Diploma Ôl-raddedig mewn Arfer Proffesiynol neu gymhwyster proffesiynol perthnasol** dros y ddwy flynedd pan fyddwch yn eich swydd. Yn ystod eich cyfnod fel myfyriwr graddedig gallwch ddisgwyl profi'r canlynol:



Diwrnodau Datblygu - Fel rhan o'r rhaglen, byddwch yn cael cyfle i ddod at eich gilydd yn ystod y sesiynau i rwydweithio a meithrin perthnasoedd â'ch cyd-raddedigion.



Siaradwyr Gwadd - Mae graddedigion blaenorol, Uwch-reolwyr a Chyfarwyddwyr yn dod i'r sesiynau i rannu eu taith a'u profiadau gyrfa gyda chi.



Trafodaeth am Yrfaeodd - Mae hwn yn gyfle i chi ddarganfod pa ddyheadau gyrfacol sydd gennych ar gyfer y dyfodol. Mae'n nodi eich sgiliau a'ch rhinweddau a sut yr ydych chi wedi datblygu yn ystod y ddwy flynedd ar y rhaglen i raddedigion.



Cymorth i Fachu Swydd - Yn dilyn eich trafodaeth am yrfaeodd, bydd y profiad hwn yn eich helpu chi i hyrwyddo eich hun yn effeithiol a chreu argraff gadarnhaol.



Mentora – Rhoddir cyfle i chi gael eich mentora gan Uwch Reolwr. Mae mentora yn berthynas un-i-un sy'n canolbwyntio ar eich datblygiad. Mae ein Huwch Reolwyr yn gallu cynnig amrywiaeth eang o wybodaeth, arbenigedd a chyfleoedd i gysgodi timau eraill y tu allan i'ch maes gwaith.



Yr Iaith Gymraeg – Mae angen i'n holl bobl gyrraedd o leiaf Lefel 1 yn y Gymraeg er mwyn cefnogi ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid. Gofynnwyd yn rhai o'n swyddi i raddedigion am lefel sgiliau iaith uwch, a chewch gefnogaeth i ddatblygu'r sgiliau ar hyd bob cam o'ch taith.



Lleoliad gwaith yn ein Tîm Trawsnewid i Wneud Cynnydd (TIC) – Mae'n bosibl y cewch gyfle i gael profiad o weithio gyda thîm TIC y Cyngor er mwyn cefnogi amcanion newid, effeithlonrwydd a gwella y Cyngor. Bydd y gwaith hwn yn eich galluogi i ddatblygu ystod o sgiliau ac ehangu eich gwybodaeth am ein gwasanaethau.

Beth ydym ni'n ei ddisgwyl gennych chi?

Rhaglen i Raddedigion Peirianeg Sifil

Er bydd yr ystod o rolau a llwybrau cymhwyster proffesiynol yn amrywio, rydym yn disgwyl i chi ddangos y cryfderau yr ydym yn edrych amdanynt. Manylir ar y rhain isod a byddant yn sail i'n proses recriwtio a dethol:

GWERTH	CRYFDER
UN TÎM Gweithio er budd y sefydliad cyfan	HYBLYG Gallwch addasu i newidiadau yn y gwaith neu'r amgylchedd. Rydych yn hyblyg ac yn amryddawn ac yn gallu bod yn eiriolwr dros newid.
UNIONDEB Arwain trwy esiampl	MEITHRIN PERTHYNAS Rydych yn sicrhau parch ac ymddiriedaeth gyffredin yn gyflym, gan feithrin perthynas hirdymor ag eraill.
CWSMERIAID YN GYNTAF Darparu'r hyn sy'n bwysig	DISGYBLEDIG Rydych yn ymdrechu i sicrhau canlyniadau o safon, mae gennych ddealltwriaeth o fusnes ac rydych yn anelu at ragori ym mhopeth yr ydych yn ei wneud.
GWRANDO Ymgysylltu a chyfathrebu	DYSGWR Rydych yn chwilfrydig, rydych yn chwilio am wybodaeth newydd a ffyrdd newydd o ddatblygu eich hun.
CYMRYD CYFRIFOLDEB Yn atebol	CATALYDD Rydych yn meddu ar gymhelliad cryf i gyflawni amcanion. Rydych yn hyderus o ran gweithio heb gyfarwyddyd i gyflawni pethau.
RHAGORIAETH Arwain trawsnewid	GWELLA Gallwch ddadansoddi gwybodaeth a rhoi safbwynt newydd beth bynnag y sefyllfa neu'r cyd-destun. Rydych yn clywed barn pobl eraill ac yn gallu deall bod llawer o safbwyntiau i'w hystyried.

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwneud cais am y rhaglen, byddwn yn disgwyl i chi ddangos eich gallu i berfformio a datblygu yn y rolau hyn drwy gwblhau ein proses ymgeisio ac os cewch eich rhoi ar y rhestr fer, bydd disgwyl i chi gwblhau asesiadau ar-lein a mynd i Ganolfan Asesu.

sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/swyddi-a-gyrfaoedd/

Beth sydd angen i chi ei wneud nesaf?

Rhaglen i Raddedigion TGC

Llenwi Ffurflen gais

Asesiad ar-lein


Cymryd rhan yn y Ganolfan Asesu

Mynd i Gyfweliad

Darparu Geirda

Cymhwyster Ôl Raddedig

Pam yr ydym yn defnyddio Canolfan Asesu?



Rhaglen i Raddedigion Cyfrifyddiaeth

Ystyrir bod Canolfannau Asesu yn ddull teg a manwl o ddewis ymgeiswyr, gan eu bod yn rhoi cyfle iddynt ddangos amrywiaeth eang o gryfderau sy'n berthnasol i'r swydd a hynny dros gyfnod o amser. I ddechrau, cewch wahoddiad i gwblhau Holiadur Personoliaeth Galwedigaethol ar-lein a Phrofion Gallu a bydd y canlyniadau yn cael eu defnyddio i roi adborth i chi ar eich perfformiad ac i gynorthwyo'r broses ddethol.

Beth yw trefn y Ganolfan Asesu?

Nod fformat y Ganolfan Asesu i Raddedigion yw rhoi profiad ystyrlon a realistig sy'n gysylltiedig â gwaith i chi a fydd yn eich galluogi i gymryd rhan a dangos eich gwir botensial. Bydd yn rhoi dealltwriaeth i chi o sut yr ydym yn cefnogi cyfleoedd am ddysgu a datblygu gan hefyd sicrhau bod eich uchelgeisiau unigol yn cyd-fynd â'n gofynion a'n gwerthoedd sefydliadol.

Yn eich sesiwn groesawu, byddwch yn cael yr holl wybodaeth angenrheidiol i gyflawni pob rhan o'n proses asesu. Byddwch yn cael amserlen sy'n manylu ar y gweithgareddau ynghyd â'r cyfarwyddiadau ynghylch pob un o'r ymarferion a gwybodaeth am yr adnoddau sydd ar gael ichi.

Fel arfer mae ein Canolfan Asesu i Raddedigion yn cynnwys:

- Adborth a thrafodaeth ynghylch eich Profion Gallu gan gynnwys eich Holiadur Personoliaeth Alwedigaethol
- Ymarfer Efelychu e.e. Gweithgaredd grŵp
- Asesiad Iaith Ysgrifenedig/Llafar
- Cyflwyniad
- Cyfweliad â Phanel

Beth a fesurir gan yr asesiadau?



Nod y profion yw asesu'r cryfderau a nodwyd uchod. Bydd y ffordd yr ydych yn dangos y sgiliau hyn ar draws ystod o sefyllfaoedd sy'n gysylltiedig â gwaith yn sail i'r broses ddethol a bydd yn ein galluogi i roi adborth strwythuredig i chi.

Sut y gallwch chi baratoi?

Bydd hwn yn gyfle gwirioneddol i chi ddangos eich cryfderau felly byddwch am sicrhau eich bod mor barod ag sy'n bosibl.

Mae'n bwysig, wrth ichi baratoi, eich bod yn rhoi sylw i broffil y swydd / y fanyleb person, a'ch bod yn gyfarwydd â'r cryfderau sy'n ofynnol ar y lefel hon er mwyn i chi allu rhoi enghreifftiau, defnyddio eich sgiliau a dangos sut yr ydych yn cydymffurfio â'n Gwerthoedd Craidd.

Rhoddir profion gallu ymarfer ymlaen llaw i chi a bydd yn ddefnyddiol i chi fod yn gyfarwydd â gwybodaeth sefydliadol allweddol sydd ar gael ar ein gwefan.



Barn ein graddedigion blaenorol?

Hyfforddai Graddedig - Perfformiad a Busnes ar gyfer yr is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

“ Enillais gymhwyster dysgu seiliedig ar waith sydd wedi bod yn hynod o ddefnyddiol o ran fy helpu i lunio CV gwych yn ogystal a nodi fy anghenion hyfforddi fy hun a llunio cynllun datblygu personol, y byddaf yn parhau i'w ddiweddarau wrth imi symud ar hyd fy llwybr gyrfa.

Rwy'n gwybod yn bendant bod fy amser fel Hyfforddai Graddedig gyda Chyngor Sir Caerfyrddin wedi fy rhoi ar y blaen i ymgeiswyr eraill.

Mae'r datblygiad proffesiynol yr wyf wedi'i gael wedi bod yn amhrisiadwy ac rwyf wedi ennill sgiliau a gwybodaeth a fydd o gymorth imi drwy gydol fy llwybr gyrfa.

”

Hyfforddai Graddedig - Arolygydd Mecaneg

“ Mae'r rhaglen i raddedigion yn wir wedi helpu ac rwy'n ddiolchgar iawn am yr holl brofiad y mae'r rôl hon wedi'i roi imi.

”

Gwybodaeth Gyswilt

Os oes gennych unrhyw gwestiwn am un o'n rhaglenni i raddedigion peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni ar:



workready@sirgar.gov.uk